OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 40

# Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018

## Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Chwefror 2018.

## Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod bwyd anifeiliaid" ("*feed authority*") yw awdurdod a nodir yn adran 67(1A) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 fel yr awdurdod sydd â'r ddyletswydd i orfodi Rhan IV o'r Ddeddf honno o fewn ei ardal neu ddosbarth yn ôl y digwydd;

mae i "bwyd anifeiliaid" yr ystyr a roddir i "feed" yn Erthygl 3 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor;

ystyr "sylwedd ymbelydrol" ("*radioactive substance*") yw unrhyw sylwedd sy'n cynnwys un neu ragor o radioniwclidau nad oes modd diystyru ei actifedd neu ei grynodiad actifedd o safbwynt amddiffyn rhag ymbelydredd.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae "mewnforio" ("*import*") ac "allforio" ("*export*") i gael eu dehongli yn unol â'r ystyron sydd i "importation" ac "exportation" at ddibenion Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(**1**).

## Gwahardd arferion

**3.** Ni chaiff neb ychwanegu sylwedd ymbelydrol yn fwriadol wrth gynhyrchu bwyd anifeiliaid.

**4.** Ni chaiff neb fewnforio nac allforio unrhyw fwyd anifeiliaid y mae sylwedd ymbelydrol wedi ei ychwanegu ato'n fwriadol wrth gynhyrchu'r bwyd anifeiliaid hwnnw.

## Troseddau a chosbau

**5.** Mae unrhyw berson sy'n mynd yn groes i reoliad 3 neu reoliad 4 yn euog o drosedd ac yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy neu i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na 3 mis, neu'r ddau ohonynt.

## Gorfodi

**6.** Dyletswydd awdurdod bwyd anifeiliaid o fewn ei ardal yw gorfodi'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1979 p. 2.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

**Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016**

**7.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016(**2**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn Atodlen 1 (cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig), ar ôl y cofnod ar gyfer "Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016", mewnosoder—

"Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018".

**Diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009**

**8.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(**3**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn Atodlen 2 (diffiniad o gyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol), ar ôl paragraff (dd), mewnosoder y paragraff a ganlyn—

"(e) Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018."

*Vaughan Gething*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Ionawr 2018

(**2**) O.S. 2016/387 (Cy. 121).
(**3**) O.S. 2009/3376 (Cy. 298).